

Huw Irranca–Davies AC
Y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol
Drwy e–bost

23 Hydref 2018

Annwyl Huw

Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru): Trafodion Cyfnod 2

Diolch ichi am ddod i gyfarfod y Pwyllgor ar gyfer ei drafodion Cyfnod 2 ynghylch y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) yr wythnos diwethaf.

Ar ddiwedd y cyfarfod hwnnw, fe soniais y byddwn yn ysgrifennu atoch yn gofyn am eglurder ynghylch y wybodaeth a gawsom gennych mewn perthynas â'r gofynion cofrestru i'r rheini sydd am ddarparu gofal plant a gyllidir o dan ddarpariaethau'r Bil.

Yn ystod Cyfnod 1, roedd y Pwyllgor ar ddeall:

- Bod y Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 ("y Gorchymyn") yn eithrio'r sawl sy'n gweithredu fel nani o'r gofyniad i gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru – gallant, fodd bynnag, gofrestru drwy 'gynllun cofrestru gwirfoddol'. O ganlyniad i hyn, cânt eu heithrio rhag darparu gofal plant a gyllidir o dan ddarpariaethau'r Bil. At hynny, roeddem ar ddeall nad yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu newid y sefyllfa honno.
- Ni all ysgolion gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru fel darparwyr gofal plant ar hyn o bryd o ganlyniad i'r Gorchymyn. Er mwyn cynnig gofal plant a gyllidir o dan y cynnig, byddai'n rhaid i ysgolion naill ai:



- i. weithio mewn partneriaeth â darparwr gofal plant cofrestredig neu fod yn lleoliad ar gyfer y darparwr (mewn achos o'r fath, byddai'r darparwr gofal plant yn gweithredu fel busnes ar wahân i'r ysgol ei hun; neu
 - ii. greu corff ar wahân er mwyn i gynrychiolwyr o'r ysgol allu cofrestru â'r Arolygiaeth a darparu gofal plant ar safle'r ysgol (byddai'r corff hwn yn gyfan gwbl ar wahân i'r ysgol a byddai'n gofyn am ei strwythur llywodraethu ei hun).
- Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi galwad am dystiolaeth mewn perthynas â'r Gorchymyn *"yn yr hydref a byddem yn disgwyl i fwy o wybodaeth ynghylch y pryderon hyn ddod i'r amlwg fel rhan o'r adolygiad hwnnw"* ([Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor PPIA](#)).

Yn dilyn trafodion Cyfnod 2, yn enwedig y drafodaeth ar welliannau Grŵp 9 (Categoriâu o ddarparwyr gofal plant a gyllidir), roeddem yn ansicr a oeddem wedi deall yn gywir y sefyllfa bresennol yn ogystal â bwriadau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.


Felly, byddai'r Pwyllgor yn croesawu eglurhad ynghylch y canlynol:

- a yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu galluogi ysgolion i ddarparu gofal plant a gyllidir o dan ddarpariaethau'r Bil heb fod angen i berson cyfrifol gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru (ac, os felly, beth yw'r prosesau a'r amserlenni tebygol sy'n gysylltiedig â'r newid hwn);
- barn Llywodraeth Cymru ynghylch nanis yn darparu gofal plant a gyllidir o dan y Bil hwn.



Byddwn yn croesawu ymateb i'r llythyr hwn cyn gynted â phosibl i allu rhoi gwybod i'r Aelodau wrth gyflwyno a thrafod gwelliannau yng Nghyfnod 3.

Yn gywir,



Lynne Neagle AC
Cadeirydd

